

ASTUDIAETH ACHOS

# Gareth Jones

Mae Gareth yn berson sy'n gweithio o gartref. Roedd yn arfer bob yn gwsmer ITS a oedd yn cynnig cyflymder lawrlwytho o hyd at 10MBPS, er mai 5 - 8MBPS oedd yn arferol. Roedd yn bosib talu mwy i gael cyflymder cyflymach, ond mae'n teimlo fod y pris yn afresymol o ddrud.

## Heriau gyda mynediad annibynadwy i'r rhyngrwyd

Yn flaenorol, gwnaeth Gareth ddefnydd o gynllun Not Spot Llywodraeth y DU trwy drefnu cysylltiad rhyngrwyd trwy RadioLink i Ysgol Bodedern, sydd ei hun wedi'i gysylltu'n ddi-wifr a'r offer sydd ar dop Ysgol Uwchradd Caergybi. Fodd bynnag, nid yw'r system hon yn gallu gwerthsefyll y tywydd, gan y byddai'r tywydd gwael yn effeithio'n negyddol ar y cysylltiad rhyngrwyd. Pe bai problem yn digwydd dros hanner tymor neu wyliau'r haf, mae'n bosibl na fyddai ganddynt gysylltiad rhyngrwyd am wythnosau neu fwy gan mai mynediad cyfyngedig sydd gan beirianwyr i dir yr ysgol.

Er mwyn delio a materion cysylltedd, mae Gareth wedi troi at deithio i le a WiFi mwy dibanadwy. Er enghraifft, pan oedd ei fab ym Mhrifysgol Bangor ac angen y rhyngrwyd ar gyfer gwaith cwrs, byddai'n rhaid iddynt yrru i Fangor er mwyn cael mynediad I'r rhyngrwyd cyflym a sefydlog lle gallai lawrlwytho'r deunyddiau cwrs angenrheidiol.

## Taith i rhyngrwyd cyflym iawn

Roedd Gareth yn gweld y broses newid drosodd yn weddol gyfleus, gan weld nad oedd unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer gosod y lein. Mae'n hapus a'r ffaith fod y pris y mae'n ei dalu am fand eang ffibr tua'r un bris ag oedd i'w ddarparwr blaenorol am gysylltiad rhyngrwyd arafach.

Gyda band eang ffeibr llawn ar gael iddo, mae Gareth yn gallu cael cyflymder lawrlwytho o hyd at 140MBPS gyda chyflymder uwchlwytho o 30+MBPS, sy'n golygu ei fod yn gallu defnyddio Microsoft Teams a Webex, ac yn gallu gweithio fel pe bai yn y swyddfa.

> O ystyried ei broblemau symudedd, mae Gareth yn gweld bod ei gysylltiad rhyngrwyd cyflym a dibynadwy wedi bod yn hwb i'w waith.

Uchelgais Gogledd Cymru Ambition North Wales

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU